# Adolygiad Strategol

Blwyddyn Un 20/21

ateb atebion gwell o ran byw

# Cynnwys


3/ Trosolwg y Bwrdd

5/ Mynd i'r afael â'n heriau

7/ Nod 1: Cynyddu cryfder corfforaethol

10/ Nod 2: Gwella'r gwaith o gwasanaeth i gwsmeriaid

12/ Nod 3: Twf o ran busnes newydd

14/ Metrigau allweddol y cynllun strategol

16/ Rheoli ein risgiau

17/ Crynodeb gweithredol

# Trosolwg y Bwrdd

## Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cael effaith sylweddol ar bob un ohonom. O ganlyniad i'r helynt a achoswyd gan Covid-19, gwnaethom gyflwyno cynllun 'interim' 2 flynedd yn ystod y flwyddyn i ddisodli ein cynllun strategol. Nod y cynllun interim hwnnw oedd cynnal gwasanaethau'r Grŵp a gwella a datblygu gwasanaethau lle bo'n bosibl, o ystyried yr anawsterau.

Ein prif nod yn ystod y cyfnod hwn oedd cadw ein cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid yn ddiogel. Bydd llawer o bethau i ni eu dysgu yn deillio o'r flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod cyfnodau cynnar Covid, gwelsom yn fuan fod angen cynorthwyo ein cwsmeriaid hŷn a mwy agored i niwed mewn ffyrdd gwahanol. Wrth i'n cymunedau encilio fwyfwy i'w cartrefi o ganlyniad i'r cyfnodau clo, effeithiwyd yn sydyn ar drefn arferol pobl a'u cyswllt â phobl eraill. Daeth ein timau ynghyd i drefnu cyswllt rheolaidd â channoedd o'n cwsmeriaid er mwyn cadarnhau eu bod yn iawn, cael y newyddion diweddaraf a'u rhoi mewn cysylltiad â grwpiau cymorth cymunedol a oedd yn weithredol yn yr ardal, e.e. cynlluniau dosbarthu bwyd.

Mae'r cynllun strategol newydd yn ymgorffori ein profiad cynnar o Covid ac mae'n ceisio ymestyn ein darpariaeth o ran lles a datblygu cymunedol yn y tymor hwy. Wrth reswm, mae'r cynllun yn dal i ymdrin ag agweddau allweddol ar yr heriau a fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol, megis yr angen i ddatgarboneiddio ac i ddatblygu cartrefi newydd ar draws y gorllewin.

Bydd datgarboneiddio ein cartrefi er mwyn cyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen i gymunedau, busnesau a rheoleiddwyr ddod ynghyd i gytuno ar ddulliau, cynlluniau a modelau cyllido er mwyn newid cyfeiriad y modd yr ydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio ynni. Bydd Grŵp ateb yn ceisio sicrhau ei fod yn gwneud yr hyn a all i gefnogi datgarboneiddio, a thrwy hynny helpu i wneud ynni yn fforddiadwy.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gyflwyno ein polisi rhent fforddiadwy ar sail yr egwyddorion rhent byw a gynigiwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree. Y llynedd, dim ond yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr y cododd ein rhent, yn hytrach nag yn unol â'r uchafswm a ganiateir dan y polisi rhent presennol, sef y Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1%. At hynny, gwnaethom rewi am flwyddyn arall ein rhenti canolradd er mwyn caniatáu iddynt addasu fel eu bod yn nes at ein rhenti cymdeithasol. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae Covid wedi'i chael ar ein cwsmeriaid, ac er nad yw'n gwneud iawn am y flwyddyn anodd, gwnaethom gytuno ar gynllun gwobrwyo gwerth tua £10 i bob un o gwsmeriaid ateb er mwyn cydnabod nad yw pethau wedi bod yn normal iddynt.

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, gwnaethom barhau i fuddsoddi mewn gwelliannau o ran iechyd a diogelwch. Eleni, gwnaethom symud sawl un o'n gwasanaethau cydymffurfio ar gyfer eiddo, e.e. rhoi gwasanaeth i gyfarpar nwy, trydan a lifftiau, i feddalwedd pwrpasol a fydd yn ein galluogi i roi mwy o sicrwydd i'n cwsmeriaid a'n Bwrdd a monitro'r gwasanaethau a ddarperir gennym. At hynny gwnaethom lansio SafetyCloud, sef cronfa ddata sy'n cofnodi hyfforddiant, cyfrifoldebau ac asesiadau risg ein timau o ran iechyd a diogelwch. Bydd y cam hwn, sy'n rhan o'n trefniadau cefn swyddfa, yn grymuso ein timau gydag amser i gymryd cyfrifoldeb am weld problemau iechyd a diogelwch a gweithredu yn eu cylch wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i fuddsoddi mewn Meddalwedd Rheoli Tai newydd i ddisodli'r system yr ydym wedi bod yn ei defnyddio ers 20 mlynedd. Bydd hynny'n rhoi platfform mwy ystwyth i ni a fydd yn ein galluogi i ddatblygu ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r ffaith bod hynny wedi'i weithredu yn ystod holl helynt Covid yn glod i dîm ateb a'n partneriaid.

Roedd rhoi trefn ar faterion ariannol ar ddechrau'r flwyddyn yn her, o gofio bod pob un ohonom yn wynebu ansicrwydd mawr ar y pryd. Yn y cyd-destun hwnnw, roeddem yn falch iawn o ganlyniad ein cyfleuster newydd gwerth £23 miliwn gyda'r Gorfforaeth Cyllid Tai, a'n bod wedi gallu tynnu £8 miliwn arall i lawr gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality sy'n bartner hirdymor i ni. Mae ein halldro ariannol yn gadarnhaol fel Grŵp, ond bydd angen i ni gofio bod rhai llinellau buddsoddi, e.e. gwelliannau mewnol arfaethedig, wedi'u hatal ac y bydd angen eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Mae gwaith llywodraethu'r Grŵp wedi parhau'n gadarn yn gyson; mae ein Byrddau wedi addasu'n dda, cafwyd adolygiad llywodraethu interim boddhaol gan Lywodraeth Cymru, a chyflawnwyd ystod o welliannau o'u cynlluniau parhaus ar gyfer gwella llywodraethu.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adolygiad blwyddyn 1 hwn yn ddefnyddiol i chi, ac er ein bod ar ei hôl hi yng nghyswllt rhai amcanion, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw a dal i fyny drwy gydol blwyddyn 2 cyn cyflwyno cynllun 3 blynedd newydd ym mlwyddyn ariannol 22/23, gan obeithio y bydd y gwaethaf o Covid y tu cefn i ni erbyn hynny.

*David Birch*
Cadeirydd ateb Group Limited



## Dyma gyflawniadau Grŵp ateb yn ystod blwyddyn ariannol 20/21:

| | |
|---|---|
| Cwblhau | 112 o gartrefi cymdeithasol/fforddiadwy newydd (gan gynnwys rhai a brynwyd) |
| | 1,030 o addasiadau brys i gartrefi yn y sector preifat |
| | 45 o gartrefi i'w gwerthu, gyda 100% o'r elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl er mwyn darparu mwy o gartrefi rhent cymdeithasol |
| Dechrau adeiladu | 49 o gartrefi cymdeithasol/fforddiadwy newydd |
| | 30 o gartrefi i'w gwerthu, gyda 100% o'r elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl er mwyn darparu mwy o gartrefi cymdeithasol/fforddiadwy |
| Ailosod | 204 o gartrefi sy'n bodoli'n barod |

# Mynd i'r afael â'n heriau

## Mae'r heriau presennol a nodwyd yn parhau yr un fath, gyda'r nodiadau canlynol:

Helynt Covid-19 – Bydd helynt Covid-19 yn effeithio ar y Grŵp am sawl blwyddyn, o safbwynt ei fuddsoddiad mewn gwelliannau arfaethedig, lles cwsmeriaid ac aelodau'r tîm, y broses o ddychwelyd i gyswllt wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, a phroblemau ariannol posibl a allai ddeillio o unrhyw ddirywiad economaidd.

Datgarboneiddio – Rhaid dod i ddeall datgarboneiddio'n well er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn awr, ynghyd â'r buddsoddiad sylweddol sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd targedau ar gyfer ynni sero-net, yn sicrhau'r canlyniadau hirdymor gorau i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'r blaned. Rydym o'r farn bod Grŵp ateb mewn sefyllfa dda i ymateb i'r agenda hon ond nid ydym am ruthro i wneud dim.

Adolygiad tai fforddiadwy – Cafodd yr adolygiad tai fforddiadwy ei atal o ganlyniad i Covid-19, ond bydd angen deall y sefyllfa erbyn yr adeg pan fydd yn bryd i'r broses newydd ar gyfer dyrannu grantiau tai cymdeithasol ddechrau ym mlwyddyn ariannol 22/23.

Arferion gweithio – Mae'n anochel y bydd arferion gweithio yn newid o ganlyniad i'n profiad o Covid-19. Bydd angen i ni weithio gyda'n cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid i ddeall yn well sut y bydd ein trefniadau gweithio newydd yn edrych ac yn teimlo.

Lles cwsmeriaid – Ni fydd gofalu am les cwsmeriaid yn dod i ben pan fydd Covid-19 wedi mynd heibio. Mae angen i ni gytuno ar beth y gall Grŵp ateb wneud mwy ohono i helpu i adeiladu cymunedau cynaliadwy.

Credyd Cynhwysol – Mae disgwyl i newidiadau gael eu gwneud yn ystod Chwarter 2 21/22 i'r taliadau Credyd Cynhwysol ychwanegol a roddwyd yn ystod Covid-19.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Erbyn hyn, mae disgwyl i'r ddeddf tai newydd ddod i rym ddechrau mis Ebrill 22, a fydd yn golygu newid sylweddol i'n trefniadau presennol ar gyfer tenantiaethau.

Gorchwyddiant yn y diwydiant adeiladu – O ganlyniad i broblemau byd-eang gyda chadwyni cyflenwi, mae cost deunyddiau a llafur wedi cynyddu'n gynt ac yn gynt yn ystod y chwe mis i'r flwyddyn ddiwethaf, gan beryglu hyfywedd cwmnïau adeiladu.

Ardaloedd lle ceir galw mawr am dai – Mae'n mynd yn fwyfwy anodd prynu tir i adeiladu cartrefi fforddiadwy arno mewn ardaloedd arfordirol. Bydd angen arloesi mwy er mwyn sicrhau bod cyflenwadau o dai ar gael i gymunedau lleol yn yr ardaloedd hynny yn y dyfodol.

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru – Mae disgwyl iddynt gael eu lansio ar 1 Hydref 2021. Mae'r newidiadau i gartrefi sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd yn cynnwys heriau megis systemau gwresogi nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil.

# Crynodeb o gynnydd blwyddyn 1

| Cynnydd cyfyngedig | Cynnydd wedi'i wneud ond yn arafach na'r disgwyl | Cynnydd wedi'i wneud yn unol â'r disgwyl | Cynnydd wedi'i wneud yn gynt na'r disgwyl | Cynnydd wedi'i wneud dipyn yn gynt na'r disgwyl |
|---|---|---|---|---|
| ★ | ★★ | ★★★ | ★★★★ | ★★★★★ |

## Cynnydd fel yr oedd ar ddiwedd blwyddyn 1 – ar 31 Mawrth 2021

| | Amcanion strategol | ★ | ★★ | ★★★ | ★★★★ | ★★★★★ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhoi sicrwydd | | ■ | | | |
| 2 | Cynllun Gwella Llywodraethu | | | ■ | | |
| 3 | Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch | | | ■ | | |
| 4 | DNA | | | ■ | | |
| 5 | Swyddfeydd | | | ■ | | |
| 6 | System Rheoli Tai | | | ■ | | |
| 7 | Platfform cwmwl | | | ■ | | |
| 8 | Cynllunio ystwyth | | ■ | | | |
| 9 | Cynllunio ariannol | | | ■ | | |
| 10 | Adolygu'r fenter Ymgysylltu | | | ■ | | |
| 11 | Lles | | | ■ | | |
| 12 | Y tîm | | | ■ | | |
| 13 | Adolygu cydnabyddiaeth ariannol | | | ■ | | |
| 14 | Datgarboneiddio | | | ■ | | |
| 15 | Menter yr amgylchedd | | | ■ | | |
| 16 | Menter y gadwyn gyflenwi leol | | ■ | | | |
| 17 | Cam 2 y Cynllun Darparu Gwasanaethau | ■ | | | | |
| 18 | Grwpiau arwain | ■ | | | | |
| 19 | Strategaeth cartrefi newydd | | | ■ | | |
| 20 | Integreiddio lles ac iechyd | | | ■ | | |
| 21 | Cymorth cymunedol | | | ■ | | |
| 22 | Partneriaethau gydag awdurdodau lleol | | | ■ | | |
| 23 | Mill Bay Homes – Strategaeth cartrefi newydd | | | | | ■ |
| 24 | Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru – Integreiddio lles ac iechyd | | | ■ | | |

# NOD 1 – A ydym yn cynyddu ein cryfder corfforaethol?

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol tu hwnt i'n cwsmeriaid ac i'r Grŵp. Mae'r Grŵp wedi ymateb yn dda i'r heriau posibl i'n cryfder corfforaethol hirdymor. Mae trefniadau llywodraethu wedi parhau'n gadarn wrth i gyfarfodydd y Bwrdd symud i amgylchedd rhithwir; cafwyd diweddariadau wythnosol i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr, a digwyddiadau cyn cyfarfodydd y Bwrdd i aelodau'r Bwrdd; mabwysiadwyd fframwaith sicrwydd is-gorff; a chafwyd cyfarfodydd adolygu chwarterol rhwng y Cadeiryddion/aelodau'r Bwrdd/y Prif Weithredwr.

Mae ein cynllun gwella iechyd a diogelwch wedi symud i gam 2. Mae'r cynnydd wedi bod yn gadarnhaol iawn drwy'r flwyddyn, gyda gwelliannau pendant i'w gweld mewn systemau a diwylliant o iechyd a diogelwch yn cael ei ymgorffori yn y Grŵp. Mae'r Pwyllgor Sicrwydd wedi bod yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Rhoi Sicrwydd, sydd bellach yn nesáu at y cam lle bydd yn cael ei weithredu. Mae ein sefyllfa ariannol yn parhau'n gadarnhaol ond mae wedi newid o'r sefyllfa yr oeddem yn rhagweld y byddem ynddi. Bydd yr oedi i welliannau mewnol arfaethedig er mwyn osgoi mynd i mewn i gartrefi pobl yn golygu aildrefnu ac ailgynllunio buddsoddiad y llynedd dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

## Uchafbwyntiau Nod Strategol 1 ym mlwyddyn 1 – rydym wedi:

- Gweithredu ein mesurau parhad busnes, a oedd yn cynnwys aildrefnu cyllidebau a chynlluniau busnes ar gyfer tri chwmni'r Grŵp.
- Gweithredu cynllun strategol byrdymor newydd ar gyfer blynyddoedd ariannol 20/21 a 21/22 er mwyn cynnal y momentwm o ran gwella drwy gydol helynt Covid-19.
- Cyflwyno adroddiadau ynghylch risg i'r Bwrdd, gan fonitro trothwyon rhybudd cynnar am risg yng nghyswllt metrigau perfformiad allweddol.
- Datblygu dulliau newydd a gwell o asesu risg.
- Cynnal arfarniadau'r Bwrdd.
- Parhau i ddatblygu ystod o gamau gwella hirdymor ar gyfer y Bwrdd/y Tîm Rheoli Gweithredol yn rhan o'n Cynllun Gwella Llywodraethu.
- Trosglwyddo cyfarfodydd ac adroddiadau'r Bwrdd i amgylchedd rhithwir.
- Paratoi'r fframwaith Rhoi Sicrwydd i'w weithredu.
- Cwblhau'r gwaith o drefnu benthyciad gwerth £23 miliwn gyda'r Gorfforaeth Cyllid Tai fel y bwriadwyd.
- Tynnu £8 miliwn i lawr o'n cyfleuster gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality.
- Datblygu ein hymateb i Covid-19 o safbwynt cwsmeriaid a thimau.
- Parhau i gyflawni ein rhaglen gwella iechyd a diogelwch/cydymffurfio.
- Gweithredu pecyn lles tîm, sy'n gysylltiedig â chynnal ein DNA.
- ateb – gweddill cadarnhaol yn y gyllideb.
- Mill Bay Homes – rhagwelir y bydd yn dychwelyd £1.5 miliwn ar ffurf cymorth rhodd i ateb ar gyfer mwy o gartrefi fforddiadwy.
- Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru – cynhyrchu incwm cadarnhaol.
- Dyfarnwyd sicrwydd Safonol i ni yn ein Dyfarniad Rheoleiddio Interim gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ein perfformiad o ran hyfywedd ariannol ac o ran llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau i denantiaid).

## Noder y cynnydd canlynol yng nghyswllt ein hamcanion strategol dan Nod 1:

| Blaenoriaeth | Amcanion | Cynnydd |
|---|---|---|
| Llywodraethu | **1. Rhoi sicrwydd –** gwnaethom ddweud y byddem yn gweithredu ein fframwaith Rhoi Sicrwydd newydd a fydd yn crynhoi'r risgiau, y mesurau rheoli, y profion a'r dystiolaeth y mae arnom eu hangen i gael sicrwydd ein bod yn gweithio tuag at wireddu ein gweledigaeth | Rydym ychydig ar ei hôl hi o safbwynt gweithredu'r fframwaith, ond mae'r fframwaith yn barod ac ar fin cael ei gyflwyno ym mlwyddyn ariannol 21/22. Mae fframwaith newydd a ddatblygwyd yn amgylchedd Microsoft Teams wedi cael ei arddangos i'r Pwyllgor Sicrwydd, aelodau'r Bwrdd a'n harchwilwyr mewnol. Rydym yn gobeithio y bydd y fframwaith newydd hwn yn chwyldroi'r modd yr ydym yn rheoli ein risgiau presennol a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac y bydd yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd ynghylch y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r modd yr ydym yn cael ein llywodraethu. CYNNYDD ★★ |
| | **2. Cynllun Gwella Llywodraethu –** gwnaethom ddweud y byddem yn parhau i ddatblygu ein systemau llywodraethu | Mae'r cynllun wedi'i weithredu drwy gydol y flwyddyn, gydag arfarniadau'r Bwrdd wedi'u cwblhau a mwy o gamau gwella wedi'u hychwanegu. Gwnaethom recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd, sydd ag ystod o sgiliau a phrofiad, a byddwn yn parhau i recriwtio mwy yn ystod 2021/22 er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel tîm effeithiol a bod ganddynt y cydbwysedd cywir o sgiliau, profiad, cefndir a gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.<br>Gwnaethom newid rheolau'r cwmni er mwyn ein galluogi i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ar-lein.<br>Mae ein Tîm Llywodraethu wedi sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu dosbarthu'n brydlon (cyn pen 7 diwrnod ar ôl y cyfarfodydd).<br>Cafodd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar draws y Grŵp eu hadolygu a'u cymeradwyo yn rhan o'r Prosiect Adolygu Polisïau.<br>Cafodd Strategaeth Ddatblygu newydd ei chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Chwefror. CYNNYDD ★★ |
| | **3. Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch –** cyflawni gwelliannau i'n systemau iechyd a diogelwch fel cyflogwr ac fel landlord | Mae cynnydd ardderchog wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Cam 1 wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae wedi'i archwilio gan Mazars (ein harchwilwyr mewnol). Rydym yn parhau i weithio gyda'n hymgynghorwyr er mwyn gwneud cynnydd gyda Cham 2 y cynllun gwella. CYNNYDD ★★★ |
| Diwylliant | **4. DNA –** gweithio gyda'n tîm i2i i ddatblygu DNA ateb ymhellach | Cwblhawyd dau arolwg lles yn ystod y flwyddyn, gydag i2i yn cefnogi'r Grŵp drwy'r flwyddyn helbulus. Roedd yna ymdeimlad da o DNA er gwaetha'r heriau. CYNNYDD ★★★ |
| Adnoddau | **5. Swyddfeydd –** rydym yn creu atebion byrdymor a hirdymor ar gyfer swyddfeydd | Buodd y sefydliad yn gweithio o bell yn ystod blwyddyn ariannol 20/21 a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. Mae asesiad risg wedi'i gynnal ar gyfer dychwelyd yn raddol i Dŷ Meyler. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn ystyried gweithio o bell yn llawn amser, a bydd Mill Bay Homes yn symud i swyddfeydd ar safleoedd ac yn gweithio o bell. Mae cynllun drafft ar gyfer trefniadau gweithio ystwyth/hybrid yn cael ei ddatblygu ar gyfer ateb. CYNNYDD ★★★ |
| | **6. System Rheoli Tai –** gweithredu MS Dynamics, sef ein system newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid | Cynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 2. CYNNYDD ★★★ |
| | **7. Platfform cwmwl –** rydym wrthi'n symud pob gwasanaeth i'r cwmwl | Cyflwynwyd MS Office 365 ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd ein systemau teleffoni a storio dogfennau eu symud i'r cwmwl yn ystod y flwyddyn ac mae disgwyl i'n systemau cyllid a rheoli tai symud yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★★★ |

| Blaenoriaeth | Amcanion | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | **8. Cynllunio ystwyth –** dod i ddeall beth yw'r 'normal newydd' ar gyfer trefniadau gweithio ar ôl Covid | Mae peth cynnydd wedi'i wneud ond mae'r cyfnodau clo parhaus a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn golygu bod mwy o waith i'w wneud eto er mwyn gweld beth y gallai trefniadau gweithio ystwyth/hybrid ei olygu i'n cwsmeriaid/tîm a'n partneriaid. CYNNYDD ★★ |
| | **9. Cynllunio ariannol –** defnyddio dadansoddiad cynllunio busnes asiantaeth statws credyd i ddeall cryfder ein gwaith cynllunio ariannol | Mae dadansoddiad wedi'i gynnal o effaith diweddariadau i'r cynllun busnes ar sail sgôr statws credyd. Mae angen gwneud mwy o waith i dargedu meysydd ar gyfer gwella o ganlyniad i'r dadansoddiad. CYNNYDD ★★★ |

## Barn y Bwrdd – Cynnydd blwyddyn 1 o ran Cryfder Corfforaethol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn ddigynsail o ran y newid i ffordd o fyw cymdeithas ac i amodau gweithredu pob busnes. Mae'r helynt wedi cael effaith ar bob un o'r tri chwmni ond maent wedi dangos cydnerthedd wrth weithredu dan amodau parhad busnes. Wrth fyfyrio ynghylch y flwyddyn ac adolygu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni a'i wella, **mae'r Bwrdd o'r farn** ein bod wedi cynnal ein cryfder corfforaethol ac wedi creu cyfleoedd i gynyddu cryfder corfforaethol ar ôl helynt Covid-19. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl oni bai bod ein cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid wedi dangos gwytnwch go iawn a pharodrwydd i ddeall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

# NOD 2 – A ydym yn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid?

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i weithredu'n ôl yr arfer ar draws y tri chwmni sy'n rhan o'r Grŵp. Gan ddilyn cyfraith/cyngor Llywodraeth Cymru, mae ein timau wedi bod yn gweithio gartref yn bennaf, ar wahân i'n timau o grefftwyr sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yng nghartrefi cwsmeriaid ond gan ddefnyddio dull o weithio sy'n ddiogel o ran Covid-19. Mae'n anochel bod hynny wedi effeithio ar ein gallu i weithredu'n ôl yr arfer a bu'n rhaid i wasanaethau addasu. Felly, buodd ateb yn canolbwyntio ar wasanaethau cydymffurfio, atgyweiriadau brys a gosod cartrefi yn ddiogel os oedd y canllawiau'n caniatáu i ni wneud hynny. Parhaodd Mill Bay Homes i adeiladu a gwerthu cartrefi a buodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar helpu cleifion i ddychwelyd adref o'r ysbyty, cyn dychwelyd yn ddiweddarach i ddarparu cymorth mwy traddodiadol yn ystod ail hanner y flwyddyn. Ein dull gweithredu oedd cynnal cymaint o wasanaethau ag y gallem yn ddiogel, gan fuddsoddi ar yr un pryd mewn meysydd gwasanaeth newydd a oedd yn deillio o'r helynt. Creodd ateb dîm lles a gafodd ei groesawu'n fawr, a fu'n canolbwyntio ar gynorthwyo cwsmeriaid hŷn a mwy agored i niwed a'u rhoi mewn cysylltiad â grwpiau cymorth cymunedol eraill. Creodd Mill Bay Homes ddulliau diogel i gwsmeriaid allu gweld a phrynu cartrefi, a chyflwynodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru asesiadau lles dros y ffôn. Nid oes amheuaeth nad yw ymdrech a dyfeisgarwch timau Grŵp ateb wedi galluogi pob un o'r tri chwmni i barhau i gynorthwyo eu cwsmeriaid, ac mewn rhai achosion bydd y profiad a rannwyd yn helpu i ffurfio ffyrdd newydd o gynllunio dulliau o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol

## Uchafbwyntiau Nod Strategol 2 ym mlwyddyn 1 – rydym wedi:

- Cynnal lefel gadarnhaol ond diogel o wasanaeth i'n holl gwsmeriaid
- Rhannu'n eang wybodaeth am ein bwriadau a'n camau gweithredu, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel bob amser.
- ateb – cyflwyno'r tîm lles.
- ateb – cyflwyno system deleffoni newydd yn y cwmwl er mwyn gallu cysylltu â chwsmeriaid wrth weithio o bell.
- ateb – creu system ar gyfer trefnu galwad ffôn/fideo â chwsmeriaid.
- ateb – dechrau gweithredu Microsoft Dynamics, sef ein system newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid (y mae disgwyl iddi fod yn weithredol erbyn mis Mehefin 21).
- Mill Bay Homes – dychwelyd mwy o rodd cymorth na'r disgwyl.
- Recriwtio 16 o aelodau newydd i'r tîm, drwy blatfformau digidol yn bennaf, gan gynnwys dau gyfarwyddwr gweithredol newydd.
- Cwblhau ein hadolygiad o gydnabyddiaeth ariannol rewards@ateb.
- Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru – dechrau'r fenter Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach
- ateb – parhau i gynnal adolygiadau ymgysylltu â chwsmeriaid o bell.
- Gweithredu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch troi pobl allan o'u cartrefi ac ynghylch digartrefedd.
- ateb – mabwysiadu egwyddorion y sector ynghylch cynorthwyo cwsmeriaid drwy'r effaith y mae Covid-19 wedi'i chael.
- Cwblhau Cam 1 y cynllun gwella iechyd a diogelwch, a oedd yn cynnwys cyflwyno system rheoli diogelwch yn y cwmwl ar gyfer y Grŵp.
- ateb – cytuno ar daliad tarfu i gwsmeriaid er mwyn cydnabod yr effaith y mae'r holl helynt wedi'i chael ar gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn.

## Noder y cynnydd canlynol yng nghyswllt ein hamcanion strategol dan Nod 2:

| Blaenoriaeth | Amcanion | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Cwsmeriaid** | **10. Adolygu'r fenter Ymgysylltu –** rydym yn adolygu ein menter ymgysylltu er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid. | Dechreuodd y gwaith paratoi yn ystod blwyddyn ariannol 20/21, a bydd gwaith adolygu sylweddol yn digwydd drwy gydol blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★★★ |
| **Pobl** | **11. Lles –** a ydym wedi helpu ein tîm drwy helynt Covid-19? | Gweithredwyd y rhaglen les a chafwyd adborth da, ond mae rhai meysydd gwella i'w nodi o ran sicrhau bod pawb yn cael amser i weld yr adnoddau. CYNNYDD ★★★ |
| | **12. Strwythur y tîm –** a ydym wedi cwblhau ein hadolygiadau o strwythurau'r tîm yn y dyfodol? | Gwnaed cynnydd da yn ystod y flwyddyn o ran nodi cynllun ar gyfer strwythurau'r tîm, a bydd y gwaith gweithredu'n dechrau yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★★★ |
| | **13. Adolygu cydnabyddiaeth ariannol –** cwblhau'r adolygiad o gydnabyddiaeth ariannol. | Cwblhawyd yr adolygiad gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Mae Covid-19 yn golygu na fydd y gwaith gweithredu yn digwydd nes blwyddyn ariannol 22/23 er mwyn galluogi i2i i gynorthwyo gyda phroses ymgynghori y mae pobl yn gallu ymgysylltu'n llawn â hi. CYNNYDD ★★★ |
| **Eiddo** | **14. Datgarboneiddio –** datblygu strategaeth sy'n creu busnes a stoc eiddo sero-net o ran carbon. | Cynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 2. CYNNYDD ★★★ |
| **Systemau** | **15. Menter yr amgylchedd –** lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu. | Cynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 2. CYNNYDD ★★★ |
| | **16. Menter y gadwyn gyflenwi leol –** mwy o gyfleoedd o ran addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ein cadwyn gyflenwi. | Strategaeth gwella caffael wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu gan y Bwrdd ym mis Ebrill 21. CYNNYDD ★★ |
| | **17. Cam 2 y Cynllun Darparu Gwasanaethau –** cytuno ar y cyfnod nesaf o gamau gwella. | Heb ddechrau eto, a bydd yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★ |
| | **18. Grwpiau arwain –** a ydym yn cael y canlyniadau gorau o'n grwpiau arwain presennol? | Heb ddechrau eto, a bydd yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★ |

## Barn y Bwrdd – Cynnydd blwyddyn 1 o ran Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Mae'n amlwg bod helynt Covid-19 wedi effeithio ar y gwasanaeth i gwsmeriaid, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo. Mae ateb wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cydymffurfio a gwasanaethau brys drwy gydol y cyfnod. Cafwyd oedi yng nghyswllt rhywfaint o waith arferol a gwelliannau arfaethedig, e.e. cafodd y gwaith o osod ceginau newydd ac ati ei aildrefnu er mwyn lleihau'r risg a oedd yn gysylltiedig â mynd i mewn i gartrefi pobl. Profodd Mill Bay Homes rywfaint o oedi yng nghyswllt gwaith adeiladu, ac amharwyd ar ei allu i ddarparu ei wasanaethau arferol ar ôl gwerthu eiddo. Gwelodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru y galw am ei wasanaethau yn gostwng yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ond mae ail hanner y flwyddyn bron wedi gwneud iawn am hynny. Daeth gwasanaethau newydd i'r amlwg, e.e. Tîm Lles ateb, a fydd yn llywio ein dull o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a'n buddsoddiad mewn technolegau yn y cwmwl, e.e. bydd ein meddalwedd newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid a'n systemau teleffoni newydd yn cynyddu ein hyblygrwydd i allu ymdopi â digwyddiadau sy'n tarfu ar wasanaethau yn y dyfodol. O ystyried y flwyddyn yr ydym i gyd wedi'i chael, mae'r Bwrdd o'r farn ein bod wedi cynnal lefel dda o wasanaeth i gwsmeriaid

# NOD 3 – A ydym yn cyflawni twf o ran busnes newydd?

Er mai diben y gwaith cynllunio cynnar mewn ymateb i Covid-19 oedd sicrhau sefydlogrwydd a gwarchod ein gwasanaethau craidd, roeddem am sicrhau nad oedd ein cynlluniau i ddatblygu cartrefi a gwasanaethau newydd yn dod i stop. Cafodd safleoedd eu cau am y cyfnod byrraf posibl, felly mae ateb a Mill Bay Homes ill dau wedi perfformio'n dda o safbwynt cwblhau cartrefi, ac o safbwynt gwerthu cartrefi yn achos Mill Bay Homes. Ar ôl sefydlu gwasanaeth Tîm Lles ateb yn fuan iawn wedi i'r helynt ddechrau, rydym yn ceisio adeiladu ar ein profiadau a chreu gwasanaeth datblygu cymunedol, y mae disgwyl iddo gael ei lansio yn ystod blwyddyn 2 y cynllun hwn. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn ceisio penodi rhywun i'w swydd gyntaf ym maes datblygu busnes newydd, gyda'r bwriad o greu mwy o gyfleoedd i Ofal a Thrwsio Gorllewin Cymru gynhyrchu incwm sy'n ychwanegol at ei incwm grant traddodiadol. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Gyda'r ddau sefydliad, mae ateb a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru wedi datblygu mentrau a gwasanaethau newydd er mwyn cynorthwyo ymhellach y bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ar draws y gorllewin

## Uchafbwyntiau Nod Strategol 3 ym mlwyddyn 1 – rydym wedi:

- ateb – darparu 112 o gartrefi newydd i'w rheoli gennym.
- Mill Bay Homes – gwerthu 45 o gartrefi a chodi dros £2.6 miliwn ar ffurf rhodd cymorth.
- Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru – dechrau'r cynllun Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
- ateb – creu partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro er mwyn cefnogi swydd Hwylusydd Tai Gwledig Sir Benfro a datblygu mwy o gynlluniau tai cymunedol/gwledig.
- ateb – creu partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt prosiect tai arloesol a newydd, sef y 4ydd cynllun i ni ei ddechrau. Mae disgwyl i'r canlyniadau ddangos technolegau adeiladu newydd sy'n lleihau carbon.

## Noder y cynnydd canlynol yng nghyswllt ein hamcanion strategol dan Nod 3:

| Blaenoriaeth | Amcanion | Cynnydd |
|---|---|---|
| Sicrhau twf o ran y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes | **19. Strategaeth cartrefi newydd –** darparu 291 o gartrefi erbyn diwedd blwyddyn ariannol 21/22 | Cafodd 112 o gartrefi eu cwblhau ym mlwyddyn 1. Strategaeth Gwella Datblygu wedi'i chytuno gan y Bwrdd/y Tîm Rheoli Gweithredol i gefnogi twf pellach. CYNNYDD ★★★ |
| Sicrhau twf o ran gwasanaethau ategol | **20. Integreiddio lles ac iechyd –** integreiddio gwasanaethau Grŵp ateb ymhellach gyda'n partneriaid yn y gymuned ac ym maes iechyd | Cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i helynt Covid-19. Mwy o waith i'w gyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★★★ |
| Sicrhau twf o ran cydberthnasau cydweithredol | **21. Cymorth cymunedol –** mwy o gymorth i grwpiau sy'n bodoli eisoes a grwpiau sy'n dod i'r amlwg yn y gymuned. | Cyflogi arweinydd tîm Datblygu Cymunedol. CYNNYDD ★★★ |
| | **22. Partneriaethau gydag awdurdodau lleol –** datblygu partneriaethau gyda'r awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid i ni | Prosiect partneriaeth newydd wedi'i gytuno â Chyngor Sir Penfro ar gyfer cael Hwylusydd Tai Gwledig. Parhau i weithio gyda Chyngor Sir Penfro ar brosiectau tai a gaiff eu harwain gan y gymuned. CYNNYDD ★★★ |
| Mill Bay Homes – tyfu | **23. Strategaeth cartrefi newydd –** 73 o gartrefi newydd, gan ddychwelyd 100% o rodd cymorth gwerth £659,000 i ateb | 45 o gartrefi newydd wedi'u datblygu a'u gwerthu a thua £2.6 miliwn o rodd cymorth yn cael ei ddychwelyd i ateb ym mlwyddyn 1. CYNNYDD ★★★★★ |
| Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru – sicrhau twf o ran gwasanaethau ategol | **24. Integreiddio lles ac iechyd –** datblygu elfennau busnes newydd. | Swydd datblygu busnes am dymor penodol wedi'i chytuno ar gyfer blwyddyn ariannol 21/22. CYNNYDD ★★★ |

## Barn y Bwrdd – Twf o ran Busnes Newydd ym mlwyddyn 1

Ein blaenoriaeth oedd diogelu gwasanaethau a oedd yn bodoli eisoes, ond rydym yn falch iawn o fod wedi gweld twf yn y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i gwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd ateb ei gartref rhif 3,000, parhaodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru i gynnig ei wasanaeth i fwy o bobl ac mewn mwy o amgylchiadau, a rhagorodd Mill Bay Homes ar ei dargedau ar gyfer rhodd cymorth. Mae hynny'n adlewyrchiad gwych o ymdrech ein timau a'n partneriaid i wneud popeth posibl i barhau i symud yn eu blaen, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd. **Mae'r Bwrdd o'r farn** ein bod wedi llwyddo i gynnal twf o ran busnes newydd, a oedd ar lefel briodol i'r amgylchiadau a brofwyd yn ystod y flwyddyn.

# Metrigau allweddol y cynllun strategol

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein cynnydd yng nghyswllt metrigau allweddol ein cynllun strategol ar gyfer blwyddyn 1:

## ateb Group Limited

| Metrigau'r cynllun strategol | Targed – Blwyddyn ariannol 20/21 | Gwirioneddol – Blwyddyn ariannol 20/21 |
|---|---|---|
| Cartrefi rhent cymdeithasol newydd (isafswm) | 99 | 111 |
| Cartrefi rhanberchnogaeth newydd (isafswm) | 3 | 1 |
| Cartrefi newydd Rhentu i Berchnogi (isafswm) | 6 | 0 |
| Ôl-ddyledion rhent (uchafswm) | 6.29% | 1.54% |
| Colli rhent o ganlyniad i eiddo gwag (uchafswm) | 0.99% | 1.26% |
| Cynnal a chadw arfaethedig – refeniw (isafswm) | £928,000 | £806,000 |
| Cynnal a chadw arfaethedig – cyfalaf (isafswm) | £683,000 | £469,000 |
| Trosiant ateb (isafswm) | £17,292,000 | £17,300,000 |
| Cost gweithredu fesul uned (uchafswm) £/uned | £4,316 | £3,969 |
| Elw gweithredu (isafswm) | 26.7% | 32.9% |
| Cymhareb gerio (uchafswm) | 59.4% | 57.1% |
| Cymhareb talu llog (isafswm) | 205.8% | 218.9% |

Hoffem wneud y sylwadau canlynol ynghylch y wybodaeth uchod am berfformiad ateb:

- Rydym o'r farn bod y perfformiad cyffredinol yn un y gellir ymfalchïo ynddo, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau, ac mae'n glod nid yn unig i wytnwch staff ateb ond hefyd i wytnwch ein tenantiaid.
- Roedd ein trosiant yn unol â'r targed, ond roedd ein helw gweithredu lawer yn well oherwydd bod llawer o'r dyledion drwg a ragwelwyd heb eu gwireddu a'n bod wedi gwario llai ar waith cynnal a chadw sydd wedi'i aildrefnu ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol.
- Roedd y targed yn ceisio adlewyrchu barn orau rheolwyr ateb ynghylch sut y byddai'r pandemig Covid-19 yn effeithio ar y busnes. O edrych yn ôl, gwelir bod rhai o'r rhagdybiaethau sylfaenol wedi bod yn orofalus.
- Ni chafodd y lefel ddisgwyliedig o ôl-ddyledion rhent ei gwireddu, ac yn ei dro cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y lefel ddisgwyliedig o ddyledion drwg.

- Gwelwyd cynnydd yn y rhent a gollwyd o ganlyniad i eiddo gwag, o gymharu â'r targed, ac roedd hynny oherwydd y cyfnodau clo niferus a gafwyd yn sgil Covid ac oherwydd y cyfyngiadau a orfodwyd gan y llywodraeth, a oedd yn amharu ar allu ateb i ailosod eiddo'n brydlon.
- Mae cymarebau cyfamodau ateb yn gadarn unwaith eto, ac maent yn rhagori ar y targed oherwydd bod perfformiad wedi gwella.

## Mill Bay Homes Limited

| Metrigau'r cynllun strategol | Targed – Blwyddyn ariannol 20/21 | Gwirioneddol – Blwyddyn ariannol 20/21 |
|---|---|---|
| Cartrefi a werthwyd (isafswm) | 25 | 45 |
| Trosiant Mill Bay Homes (isafswm) | £4,857,000 | £11,161,000 |
| Gwarged gros (isafswm) | 12.7% | 28.7% |
| Rhodd cymorth a ddychwelyd (isafswm) | £1,000,000 | £2,664,000 |

Hoffem wneud y sylwadau canlynol ynghylch y wybodaeth uchod am berfformiad Mill Bay Homes:

- Perfformiad eithriadol wedi'i sbarduno gan fwy o alw nag a ragwelwyd.
- Roedd y targed yn adlewyrchu barn ofalus y rheolwyr am berfformiad y busnes o ystyried cyd-destun y pandemig Covid-19.
- Roedd perfformiad gwirioneddol o ran elw gros yn seiliedig ar nifer y cartrefi a werthwyd yn ogystal â phrisiau gwerthu uwch.

## Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

| Metrigau'r cynllun strategol | Targed – Blwyddyn ariannol 20/21 | Gwirioneddol – Blwyddyn ariannol 20/21 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd (isafswm) | £705,674 | £771,119 |
| Gwarged/(Diffyg) gweithredu ar gyfer y flwyddyn (uchafswm) | -£53,101 | £33,544 |

Hoffem wneud y sylwadau canlynol ynghylch y wybodaeth uchod am berfformiad Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru:

- Cynorthwyodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru fwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, ac o ganlyniad cafodd fwy o incwm na'r disgwyl o ffrydiau cyllido ychwanegol.
- Mae'r perfformiad gwell wedi'i atgyfnerthu hefyd gan gostau gweithredu is.

# Risgiau Strategol

Noder ein perfformiad yng nghyswllt ein 16 o risgiau strategol:

| Math o Risg | Risg Strategol | Mesurau Rheoli |
|---|---|---|
| Cydymffurfio | Methu â bodloni deddfwriaeth ym maes iechyd a diogelwch a gofynion rheoleiddiol | Effeithiol |
| | Methu â chydymffurfio â deddfwriaeth i gyflogwyr a landlordiaid | |
| | Methu â gweithredu o fewn ein fframwaith rheoleiddiol | |
| | Methu â bodloni cyfamodau ein benthycwyr | |
| | Methu â chyflawni gofynion ein contractau | |
| | Systemau gwael ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau | |
| Ariannol | Methu â rheoli ein costau gweithredu yn effeithiol | Effeithiol |
| | Methu â gwneud y buddsoddiadau cywir, e.e. wrth ddatblygu eiddo newydd neu reoli asedau strategol | |
| | Methu â rheoli ein ffrydiau incwm yn effeithiol | |
| | Methu â rheoli ein gofynion o ran cyllid yn effeithiol | |
| Enw da | Methu â deall disgwyliadau ein cwsmeriaid | Effeithiol |
| | Methu ag ymdrin â phroblemau cwsmeriaid a chymunedau yn effeithiol | |
| | Lefelau gwasanaeth neu ansawdd cynnyrch yn wael | |
| | Yn gyflogwr neu'n bartner gwael | |
| Perfformiad | Methu â deall sut y mae ein gwasanaethau'n perfformio | Effeithiol |
| | Diffyg cynllunio a chyflawni gwelliant | |

Dyma ein sylwadau ynghylch ein mesurau i reoli risgiau strategol dros y flwyddyn ddiwethaf:

> Mae'r mesurau rheoli sydd gennym ar waith i liniaru ein 16 o risgiau strategol wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn. Yn amlwg, rhoddwyd prawf ar risgiau i'n henw da o ran 'methu ag ymdrin â phroblemau cwsmeriaid a chymunedau' a 'lefelau gwasanaeth neu ansawdd cynnyrch yn wael', o ganlyniad i'r helynt a brofwyd, ond mae cwsmeriaid wedi bod yn barod iawn i ddeall cyd-destun y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn a'r angen i roi diogelwch yn gyntaf.

> Wrth weithio dan fesurau parhad busnes, rhoesom bwys ar ganolbwyntio ar ein risgiau o ran cydymffurfio a'n risgiau ariannol. Yn achos y naill a'r llall, mae'r mesurau rheoli a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn wedi ein galluogi i gynnal ein heffeithiolrwydd o ran cydymffurfio a'n cryfder ariannol. O ganlyniad i'r amgylchedd gweithredu eithriadol a brofwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n siŵr y byddwn yn mynd ati i ddatblygu ein fframwaith o fesurau rheoli er mwyn gwella ymhellach ein heffeithiolrwydd wrth liniaru risgiau.

# Crynodeb gweithredol

Bu'n flwyddyn anodd i bawb, yn gymaint felly nes i ni ddisodli'r cynllun strategol a oedd gennym eisoes â chynllun 2 flynedd byrrach a oedd yn canolbwyntio ar liniaru effeithiau helynt Covid-19. Mae tri busnes y Grŵp wedi dangos cydnerthedd sy'n brawf cadarn o ymdrechion ein cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid i addasu i'r digwyddiadau digynsail ac i gyfaddawdu.

At ei gilydd, mae ein gwasanaethau wedi bod yn canolbwyntio ar waith cydymffurfio a gwaith brys, gyda phob un o'r tri busnes yn gweithredu'n unol ag asesiadau risg Covid-19 a oedd yn seiliedig ar gyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae ein timau adeiladu cartrefi newydd a'n partneriaid yn ateb a Mill Bay Homes wedi ymateb yn gadarn gan gwblhau mwy o gartrefi na'n targedau ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod ail hanner y flwyddyn, llwyddodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru i wella ei sefyllfa'n fawr gan gofnodi metrigau cadarnhaol o ran perfformiad ac o ran ei ymwneud â chwsmeriaid.

At ei gilydd, mae'r amcanion strategol a bennwyd gennym i'n helpu i ymdrin ag effaith Covid-19 dros gyfnod blynyddoedd ariannol 20/21 i 21/22 ar y trywydd iawn o safbwynt sicrhau ein bod yn gallu dangos tystiolaeth o welliant ar draws ein 3 nod strategol er gwaetha'r helynt.

## Newidiadau arfaethedig i'n hamcanion strategol ar gyfer cyfnod diweddarach yn ein cynllun presennol.

Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau mai'r amcanion a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 2 a'r amcanion yr ydym yn dal i weithio arnynt o flwyddyn 1 fydd ein ffocws o hyd, o ystyried y cyfnod ansicr yr ydym yn ei brofi.

Bydd ein hadolygiad arfaethedig o'n Strategaeth Ddatgarboneiddio yn flaenoriaeth allweddol ynghyd â pharhau i ddatblygu DNA ateb ac arferion gweithio 'hybrid' newydd tebygol.

Rydym wedi rheoli ein risgiau strategol mewn modd cadarnhaol ym mlwyddyn 1 a chredwn fod gennym y mesurau rheoli i barhau i wneud hynny. Bydd y digwyddiadau ym mlwyddyn ariannol 20/21 yn newid ein gwaith cynllunio a'n dull gweithredu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod ond ni ddylent danseilio ein hymdrech ar y cyd i greu atebion gwell o ran byw i'r bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Mae ein Bwrdd wedi dod i'r casgliadau canlynol:

**NOD 1 –** A ydym wedi cynyddu ein cryfder corfforaethol yn ystod y flwyddyn?

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn ddigynsail o ran y newid i ffordd o fyw cymdeithas ac i amodau gweithredu pob busnes. Mae'r helynt wedi cael effaith ar bob un o'r tri chwmni ond maent wedi dangos cydnerthedd wrth weithredu dan amodau parhad busnes. Wrth fyfyrio ynghylch y flwyddyn ac adolygu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni a'i wella: **Mae'r Bwrdd o'r farn ein bod wedi cynnal ein cryfder corfforaethol ac wedi creu cyfleoedd i gynyddu cryfder corfforaethol ar ôl helynt Covid-19. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl oni bai bod ein cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid wedi dangos gwytnwch go iawn a pharodrwydd i ddeall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

**NOD 2 –** A ydym wedi gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn?

Mae'n amlwg bod helynt Covid-19 wedi effeithio ar y gwasanaeth i gwsmeriaid, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo. Mae ateb wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cydymffurfio a gwasanaethau brys drwy gydol y cyfnod. Cafwyd oedi yng nghyswllt rhywfaint o waith arferol a gwelliannau arfaethedig, e.e. cafodd y gwaith o osod ceginau newydd ac ati ei aildrefnu er mwyn lleihau'r risg a oedd yn gysylltiedig â mynd i mewn i gartrefi pobl. Profodd Mill Bay Homes rywfaint o oedi yng nghyswllt gwaith adeiladu, ac amharwyd ar ei allu i ddarparu ei wasanaethau arferol ar ôl gwerthu eiddo. Gwelodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru y galw am ei wasanaethau yn gostwng yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ond mae ail hanner y flwyddyn bron wedi gwneud iawn am hynny. Daeth gwasanaethau newydd i'r amlwg, e.e. Tîm Lles ateb, a fydd yn llywio ein dull o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a'n buddsoddiad mewn technolegau yn y cwmwl, e.e. bydd ein meddalwedd newydd ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid a'n systemau teleffoni newydd yn cynyddu ein hyblygrwydd i allu ymdopi â digwyddiadau sy'n tarfu ar wasanaethau yn y dyfodol. O ystyried y flwyddyn yr ydym i gyd wedi'i chael: **Mae'r Bwrdd o'r farn ein bod wedi cynnal lefel dda o wasanaeth i gwsmeriaid.**

**NOD 3 –** A ydym wedi cyflawni twf o ran busnes newydd yn ystod y flwyddyn?

Ein blaenoriaeth oedd diogelu gwasanaethau a oedd yn bodoli eisoes, ond rydym yn falch iawn o fod wedi gweld twf yn y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i gwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd ateb ei gartref rhif 3,000, parhaodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru i gynnig ei wasanaeth i fwy o bobl ac mewn mwy o amgylchiadau, a rhagorodd Mill Bay Homes ar ei dargedau ar gyfer rhodd cymorth. Mae hynny'n adlewyrchiad gwych o ymdrech ein timau a'n partneriaid i wneud popeth posibl i barhau i symud yn eu blaen, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd. Mae'r Bwrdd o'r farn ein bod wedi llwyddo i gynnal twf o ran busnes newydd, a oedd ar lefel briodol i'r amgylchiadau a brofwyd yn ystod y flwyddyn.

# Camau nesaf

Erbyn hyn, rydym yn gweithio ar ein hamcanion ar gyfer blwyddyn 2 cyn cyflwyno cynllun strategol 3 blynedd newydd a fydd yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 22/23. Caiff y cynllun newydd ei ddatblygu gyda'n cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid gan ddefnyddio Gweledigaeth ateb fel yr her y mae'n rhaid i ni ei chyflawni.

Bydd y Bwrdd yn adrodd ar flwyddyn 2 y cynllun presennol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 21/22.

# atebion gwell o ran byw

ateb atebion gwell o ran byw